**Tasg 2**

# Chwarae rôl

Mae pawb yn y lluniau yn chwarae rôl.

**Beth sy'n digwydd?**

Mae grŵp o bobl yn dod at ei gilydd achos maen nhw eisiau chwarae rôl, e.e. chwarae rôl yn yr Oesoedd Canol, chwarae rôl yn Oes Fictoria, chwarae rôl *The Lord of the Rings*, chwarae rôl *Start Trek* ac ati.

Maen nhw'n gwisgo dillad addas.

Yna, maen nhw'n chwarae rôl yn y stori.

1. Edrychwch eto ar Sleid 1. Gyda'ch partner chi, rydych chi'n mynd i chwarae rôl.

   Penderfynwch:
   - pwy ydych chi
   - ble rydych chi
   - beth rydych chi'n gwneud yn y llun
   - am beth rydych chi'n siarad.

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| dod at ei gilydd | (to) come together | Oes Fictoria | the Victorian Age |
| yr Oesoedd Canol | the Middle Ages | addas | suitable |

# BETH SY'N DIGWYDD?

Ysgrifennwch y sgwrs.

Actiwch y sgwrs o flaen y grŵp, ond cofiwch ddweud pwy ydych chi, ble rydych chi, a beth rydych chi'n gwneud.

2. Mewn grŵp o dri, rydych chi’n mynd i chwarae rôl yn y dyfodol. Penderfynwch:

- beth ydy’r flwyddyn
- pwy ydych chi
- ble rydych chi
- beth rydych chi’n gwneud.

Ysgrifennwch y sgript.
Actiwch y sgript o flaen y grŵp, ond cofiwch ddweud beth ydy’r flwyddyn, pwy ydych chi, ble rydych chi a beth rydych chi’n gwneud.